WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Ansawdd Data: Adolygiad o Drefniadau Canolfan Ganser Felindre

## Ymddiriedolaeth GIG Felindre


**Blwyddyn archwilio:** 2010-11

**Cyhoeddwyd:** Awst 2012

**Cyfeirnod y Ddogfen:** 358A2012

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Felindre fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.

Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Y person a gyflawnodd y gwaith oedd Paul Cunningham.

# Cynnwys

Mae gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre brosesau a gweithdrefnau priodol ac effeithiol ar waith i sicrhau bod data Canolfan Ganser Felindre yn ddilys ac yn gywir, er y gellid cryfhau'r gwaith o lunio adroddiadau blynyddol i'r Bwrdd a bydd angen rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â threfniadau newydd ar gyfer gwasanaethau gwybodeg.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Crynodeb | 4 |
| Argymhellion | 6 |
| Adroddiad manwl | |
| Ar y cyfan, mae'r trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud ag ansawdd data yn gadarn, er bod angen cryfhau'r gwaith o lunio adroddiadau blynyddol i'r Bwrdd a gallai newidiadau diweddar i'r broses o gyflenwi a rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg danseilio cynnydd | 7 |
| Er bod diffyg polisi ffurfiol, mae gweithdrefnau a phrosesau ansawdd data wedi'u sefydlu'n dda ac yn effeithiol | 10 |
| Mae perfformiad yn ôl targedau dilysrwydd data cenedlaethol, ynghyd â chanlyniadau ein dadansoddiad ein hunain o'r data, yn dangos bod prosesau ansawdd data'n effeithiol, er nad yw'r Bwrdd wedi glanhau ei holl ddata'n ddigonol hyd yn hyn | 13 |
| Atodiadau | |
| Canlyniadau'r dadansoddiad o ddata demograffig cleifion | 23 |

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

**1.** Mae'r GIG yng Nghymru'n defnyddio gwybodaeth fel rhan annatod o'i broses o ddarparu gwasanaethau iechyd. Ar lefel weithredol, mae cyrff y GIG yn llwyr ddibynnol ar systemau gwybodaeth electronig i gynnal amrywiaeth o weithgareddau allweddol gan gynnwys:

- gwaith gweinyddu, rhestru a threfnu ar gyfer cleifion;
- prosesau diagnostig, trefnu profion, gofyn am ganlyniadau a'u gweld;
- cyfuno llwybrau gofal sylfaenol ac eilaidd, gan rannu gwybodaeth hollbwysig am gleifion a allai achub bywydau;
- ei gwneud yn bosibl rheoli systemau ariannol effeithiol a rheoli cynhyrchiant;
- nodi anghenion cleifion ac anghenion demograffig, fel bod modd teilwra gwasanaethau a sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar feysydd lle y gellir gweld y budd mwyaf; a
- nodi a chyflawni canlyniadau clinigol a chanlyniadau busnes.

**2.** Dim ond os yw'r data sylfaenol o ansawdd da y bydd y wybodaeth a ddefnyddir i ategu gwaith rheoli a darparu gofal iechyd yn ddibynadwy. Noda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (GGGC) chwe elfen graidd sy'n effeithio ar ansawdd data, sef pa mor amserol, cyflawn, dilys, cyson, trachywir a chywir ydyw. Er mai prin y gellir sicrhau bod data'n gwbl gywir drwy'r amser, mae'n hanfodol sicrhau bod gan gyrff iechyd drefniadau priodol ac effeithiol ar waith o ran ansawdd data er mwyn lleihau risg glinigol, cefnogi systemau cyflawni gweithredol effeithiol ac ategu gwaith rheoli perfformiad a phrosesau sicrwydd.

**3.** Yn 2008, cynhaliodd Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Corfforaethol (RhGIC) Llywodraeth Cymru adolygiad o hen Ymddiriedolaethau'r GIG i asesu'r trefniadau o ran ansawdd data. Nododd yr adroddiad amrywiaeth o arferion gwahanol, a gwnaeth nifer o argymhellion i wella trefniadau ansawdd data. Cafodd yr argymhellion eu cyflwyno'n ffurfiol i holl Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol mewn Llythyr Gweinidogol ym mis Medi 2008. Mae gwaith y RhGIC bellach yn rhan o Wasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru. Er nad yw GGGC wedi gwneud gwaith dilynol ffurfiol ar yr adroddiad 2008 gwreiddiol, mae'n parhau i gydgysylltu a monitro dilysrwydd setiau data allweddol ym meysydd atgyfeirio cleifion allanol, gweithgarwch cleifion allanol, gweithgarwch cleifion mewnol a damweiniau ac achosion brys.

**4.** Fel rhan o'i gwaith i adolygu trefniadau cyrff y GIG i sicrhau y gwneir defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi archwilio trefniadau ansawdd data yn yr Ymddiriedolaeth. Er nad yw'r adolygiad hwn yn deillio'n uniongyrchol o adolygiad RhGIC 2008, rydym wedi ceisio ymgorffori'r materion a gafodd sylw yn yr adolygiad yn yr astudiaeth hon.

**5.** Cynlluniwyd y gwaith gyda mewnbwn GGGC ac mae'n cael ei gynnal ym mhob un o Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru.

**6.** Mae dwy adran i Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth): Canolfan Ganser Felindre (CGF) a Gwasanaeth Gwaed Cymru. Mae ein hadolygiad wedi canolbwyntio ar brosesau ansawdd data sy'n gysylltiedig â darparu gofal i gleifion, sy'n golygu bod y gwaith wedi canolbwyntio ar Ganolfan Ganser Felindre. Mae'r archwiliad wedi archwilio'r canlynol:

- trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas ag ansawdd data;
- trefniadau gweithredol o ran ansawdd data, gan gynnwys cyfrifoldebau, prosesau, gweithdrefnau a pholisi lleol; a
- dulliau mewnol o fonitro effeithlonrwydd prosesau ansawdd data a chyflwyno adroddiadau arnynt.

**7.** Wrth gynnal yr adolygiad hwn, rydym wedi asesu dogfennaeth berthnasol allweddol ac wedi cynnal cyfres o gyfweliadau ag amrywiaeth o staff. Rydym hefyd wedi cynnal ymarfer dadansoddi data i nodi i ba raddau y caiff cofnodion cleifion eu dyblygu ym mhrif System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru (CaNISC), sy'n cael ei defnyddio'n helaeth gan Ganolfan Ganser Felindre a System Gwybodaeth Radioleg (RadIS) CGF, yn ogystal â rhwng y ddwy system, fel dangosydd o effeithiolrwydd y trefniadau ansawdd data.

**8.** Nod yr adolygiad hwn oedd canfod a oes trefniadau ansawdd data effeithiol gan Ganolfan Ganser Felindre.

**9.** Ein casgliad yw bod gan yr Ymddiriedolaeth brosesau a gweithdrefnau priodol ac effeithiol ar waith i sicrhau bod data CGF yn ddilys ac yn gywir, er y gellid cryfhau'r gwaith o lunio adroddiadau blynyddol i'r Bwrdd a bydd angen rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â threfniadau newydd ar gyfer gwasanaethau gwybodeg. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- ar y cyfan, mae trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud ag ansawdd data yn gadarn, er bod angen cryfhau'r gwaith o lunio adroddiadau blynyddol i'r Bwrdd a gallai newidiadau diweddar i'r broses o gyflenwi a rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg danseilio cynnydd;
- er bod diffyg polisi ffurfiol, mae gweithdrefnau a phrosesau ansawdd data wedi'u sefydlu'n dda ac yn effeithiol; ac
- mae perfformiad yn ôl targedau dilysrwydd data cenedlaethol, ynghyd â chanlyniadau ein dadansoddiad ein hunain o'r data, yn dangos bod prosesau ansawdd data'n effeithiol, er nad yw'r Bwrdd wedi glanhau ei holl ddata'n ddigonol hyd yn hyn.

# Argymhellion

**10.** Er mwyn helpu'r Ymddiriedolaeth i wella ei threfniadau ansawdd data, rydym wedi darparu'r argymhellion canlynol.

| | |
|---|---|
| **Sicrhau ansawdd data** | |
| A1 | Cyflwyno adroddiad blynyddol ar ansawdd data, fel yr argymhellwyd gan Raglen Gwybodeg Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru yn 2008, i roi sicrwydd ar lefel sefydliadol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth sy'n cwmpasu'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau ansawdd data ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn. |
| A2 | Ffurfioli cyfrifoldebau Pwyllgor Llywodraethu a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas ag ansawdd data a sicrhau bod ansawdd data'n eitem sefydlog ar agendâu'r cyfarfodydd. |
| **Prosesau ansawdd data** | |
| A3 | Sefydlu polisi neu fframwaith ansawdd data ar draws yr Ymddiriedolaeth, fel yr argymhellwyd gan Raglen Gwybodeg Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru yn 2008, sy'n nodi'r canlynol:<br>• y strwythurau llywodraethu;<br>• swyddogaethau a chyfrifoldebau unigol mewn perthynas ag ansawdd data;<br>• gofynion polisi a safonau data;<br>• y defnydd o gofnodion cleifion;<br>• sut y cynhelir diogelwch data a chyfrinachedd;<br>• cryfhau ansawdd y wybodaeth a ddefnyddir ar gyfer llunio adroddiadau ar berfformiad i'r Bwrdd;<br>• trefniadau ansawdd ar gyfer data eilaidd sy'n deillio o ddarparwyr eraill; a<br>• hyfforddiant a chyfathrebu mewn perthynas â gwella ansawdd data. |
| A4 | Adolygu'r trefniadau rheoli gweithredol yng ngoleuni ymddeoliad y Rheolwr Gwybodaeth Glinigol yn ddiweddar a throsglwyddo staff gwybodeg i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.<br>Sicrhau bod y cyfrifoldebau a'r tasgau a gyflawnwyd yn flaenorol mewn perthynas ag ansawdd data gan y bobl hyn yn cael eu hegluro, eu dyrannu i unigolion penodol, ac os yn briodol, eu cynnwys yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth â GGGC. |
| A5 | Cwblhau'r gwaith o ddrafftio'r set ddata sylfaenol ar gyfer canser a chytuno arni gyda'r holl sefydliadau perthnasol, gan sicrhau bod ei chynllun yn lleihau'r tebygolrwydd o ddata annilys, anghyflawn neu anghywir. |
| **Monitro ansawdd data** | |
| A6 | Blaenoriaethu gwaith ar lanhau data, er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu Prif Fynegai Cleifion Cymru, drwy leihau nifer y cofnodion CaNISC heb Rifau GIG wedi'u cofnodi. |

# Adroddiad manwl

## Ar y cyfan, mae'r trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud ag ansawdd data yn gadarn, er bod angen cryfhau'r gwaith o lunio adroddiadau blynyddol i'r Bwrdd a gallai newidiadau diweddar i'r broses o gyflenwi a rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg danseilio cynnydd

### Ceir llinellau atebolrwydd clir mewn perthynas ag ansawdd data, ac ymrwymiad clinigol cryf i brosesau ansawdd data

**11.** Bellach, mae swyddogaethau ansawdd data Cyfarwyddwr Clinigol CGF a Chyfarwyddwr Gweithredol Meddygol Ymddiriedolaeth Felindre wedi'u rhannu. Dim ond yng Nghanolfan Ganser Felindre y mae'r Cyfarwyddwr Clinigol yn arwain ar ansawdd data. Yn y strwythur newydd, Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol yr Ymddiriedolaeth fydd Gwarcheidwad Caldicott hefyd a'r person hwn felly fydd â'r cyfrifoldeb gweithredol cyffredinol dros ansawdd data. Bwriedir i'r Gwarcheidwad Caldicott dderbyn hyfforddiant sy'n briodol i'r swyddogaeth honno. Mae arwyddion cynnar yn dangos bod y trefniant i rannu'r gwaith yn welliant ar y sefyllfa flaenorol lle'r oedd un person yn cyflawni'r ddwy swyddogaeth, gan fynd â llawer iawn o'i amser.

**12.** Mae staff clinigol uwch yn cyfrannu'n weithredol at Grŵp Cofnodion Iechyd CGF a Phwyllgor Llywodraethu a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yr Ymddiriedolaeth, ac mae'r ddau'n effeithio ar ansawdd data. O ddydd i ddydd, bydd staff clinigol rheng flaen, staff ategol a staff gweinyddol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn gweithio'n glòs er mwyn hyrwyddo ansawdd data da fel rhan arferol o ymarfer clinigol.

**13.** Yn Felindre, ni ddefnyddir y term 'ansawdd data' yn eang, er bod cyfeiriadau aml at yr hyn y mae'n ei gynnwys, sef cywirdeb, argaeledd ac amseroldeb data, ar agenda'r Grŵp Cofnodion Iechyd a chânt eu dadansoddi a'u trafod yn rheolaidd.

**14.** Ceir tystiolaeth o beth buddsoddiad ariannol i helpu i gefnogi ansawdd data da. Enghraifft ddiweddar yw'r Codydd Clinigol 3M a brynwyd yn 2010 yn lle'r codydd mewnol yn CaNISC. Mae hwn wedi'i gwneud yn haws i'r Rheolwr Codio gwblhau archwiliadau data gyda'r fantais ychwanegol ei fod yn cael ei gynnal a'i ddiweddaru gan gyflenwr trydydd parti.


## Ceir trefniadau llywodraethu priodol o ran ansawdd data yng Nghanolfan Ganser Felindre, er y gellid cryfhau trefniadau corfforaethol drwy sicrhau bod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn adroddiad blynyddol ar ansawdd data

**15.** Mae strwythurau llywodraethu priodol gan Ganolfan Ganser Felindre i reoli ansawdd data (gweler Arddangosyn 1). Ceir tystiolaeth bod Grŵp Cofnodion Iechyd a Phwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth CGF yn craffu'n rheolaidd ar faterion yn ymwneud ag ansawdd data; caiff unrhyw faterion penodol eu hadrodd i Bwyllgor Llywodraethu a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yr Ymddiriedolaeth sydd yn ei dro'n adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd. Y Grŵp Cofnodion Iechyd a Phwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth CGF sy'n ymdrin â gwaith CGF ac maent yn cyfarfod yn fisol. Mae cynrychiolaeth o'r ddwy isadran ar Bwyllgor Llywodraethu a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yr Ymddiriedolaeth sy'n cyfarfod yn chwarterol.

**16.** Pwyllgor Llywodraethu a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yr Ymddiriedolaeth, dan gadeiryddiaeth yr aelod anweithredol o'r bwrdd dros wybodaeth, sydd â'r cyfrifoldeb o roi sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas â threfniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer creu, casglu, storio, diogelu, lledaenu, rhannu, defnyddio a chael gwared ar wybodaeth.

Byddai'r pwyllgor hwn yn derbyn adroddiadau eithrio pe bai problemau'n codi gyda dychweliadau ansawdd data, er na chafwyd amgylchiadau o'r fath hyd yma felly cyfyngedig fu'r ymwneud yn y maes hwn.

Arddangosyn 1: Strwythur llunio adroddiadau a llywodraethu ar gyfer ansawdd data




*Ffynhonnell: Cyfweliadau Swyddfa Archwilio Cymru â staff Ymddiriedolaeth GIG Felindre*

**17.** Er bod disgwyl y câi unrhyw faterion ynglŷn ag ansawdd data eu hadrodd trwy eithriad i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, ni cheir cyfeiriad penodol at ansawdd data yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg, ac nid yw'n eitem graidd ar yr agenda. Fodd bynnag, cafodd materion ynglŷn ag ansawdd data eu trafod mewn cyfarfodydd pan oedd angen. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Bwrdd er nad yw'n cynnwys adran safonol ar ansawdd data.

**18.** Argymhellodd adroddiad y RhGIC yn 2008 y dylai Ymddiriedolaethau lunio adroddiad blynyddol ar ansawdd data. Mae'r argymhelliad hwn eto i'w weithredu yn Felindre er y byddai modd adrodd i'r Bwrdd am unrhyw faterion ansawdd data sylweddol drwy gyfrwng yr Adroddiad Fframwaith Rheoli Ansawdd Chwarterol. Mae'r Bwrdd yn mynd i sefydlu pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad yn fuan i weithredu ochr yn ochr â'r Pwyllgor Llywodraethu a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg a darparu fframwaith gwell i roi sicrwydd sefydliadol. O dan y trefniadau cyfredol, nid yw ansawdd data yn eitem reolaidd ar agenda'r Bwrdd. Heb drefniant o'r fath, ni cheir trosolwg blynyddol o berfformiad o ran ansawdd data, ac felly nid yw Bwrdd yr Ymddiriedolaeth mewn sefyllfa i farnu a yw wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn y maes hwn ai peidio.

## Ceir swyddogaethau a chyfrifoldebau gweithredol eglur o ran ansawdd data ond mae arweiniad ar Reoli Gwybodaeth a Thechnoleg a threfniadau ar gyfer ei ddarparu wedi mynd yn llai sicr yn ddiweddar

**19.** Mae gwybodaeth dda am ansawdd data gan staff clinigol ac ategol CGF. Ceir llawlyfr cynhwysfawr i holl staff CGF sydd â chyfrifoldeb am ymdrin â gwybodaeth am gleifion gyda chyfarwyddiadau manwl ar gyfer gwahanol grwpiau o staff ynghyd â siartiau llif prosesau. Mae'n cyfeirio'n aml at yr angen am gywirdeb wrth ymdrin â gwybodaeth am gleifion er nad yw'n defnyddio'r term 'ansawdd data'. Cymeradwywyd y llawlyfr gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth, a chaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd.

**20.** Mae rôl Rheolwr Gwybodaeth Glinigol CGF yn cynnwys cyfrifoldeb am ansawdd data ond ymddeolodd deiliad blaenorol y swydd ym mis Mai 2012. Bydd cyfrifoldeb yn cael ei rannu bellach rhwng y Rheolwr TG a'r Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth, a bydd y ddwy rôl yn etifeddu cyfrifoldebau am ansawdd data, er nad oedd neb wedi'i benodi i'r naill rôl na'r llall ar adeg yr archwiliad.

## Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau nad yw trosglwyddo'r swyddogaeth wybodaeth i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn peryglu ei gweithdrefnau a'i threfniadau ansawdd data

**21.** Nid oes tîm gwybodeg mewnol gan Ganolfan Ganser Felindre bellach, a chaiff pob gwaith o'r fath ei brynu i mewn gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Caiff GGGC ei wahodd i wneud y gwaith gan yr Ymddiriedolaeth, sydd â chyfrifoldeb am lywodraethu ac atebolrwydd yn unig, heb gynnwys materion yn ymwneud â pherfformiad. Yr endid

cyfreithiol ar gyfer CGF a GGGC bellach yw'r Ymddiriedolaeth, ac felly daw holl gronfeydd data cenedlaethol GGGC, yn cynnwys CaNISC, o dan yr Ymddiriedolaeth fel perchennog y data ynghyd â chyfrifoldeb am ansawdd data.

**22.** Mae cysylltiad da rhwng Adran Gwybodeg CGF a'r timau clinigol ac mae hyn wedi gweithio'n dda yn hanesyddol. Fodd bynnag, gan fod y gwasanaeth gwybodeg bellach yn cael ei brynu i mewn gan Wasanaeth Gwybodaeth GIG Cymru drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth, roedd y Pennaeth Gwybodaeth Glinigol yn pryderu ynglŷn â pharhad y trefniadau hyn oherwydd bod y strwythur adnoddau, ac argaeledd staff felly, wedi newid. Bwriedir mynd ati'n rheolaidd i adolygu'r materion penodol ynglŷn â sut a phwy sy'n darparu'r gwasanaeth a sut y rhennir tasgau, yn cynnwys ansawdd data, yng nghyfarfodydd monitro'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Fodd bynnag, ni ddechreuwyd cynnal y cyfarfodydd hyn eto.

**23.** Mae'r hyfforddwyr CaNISC yn ymwneud â phob cais am newidiadau data i fformatau neu ddata sefydlog sy'n eu galluogi i nodi arferion gwael neu unigolion ag anghenion hyfforddi a thargedu hyfforddiant yng Nghanolfan Ganser Felindre a ledled Cymru. Mae'r cyfrifoldeb am ansawdd data yn aros gyda Chanolfan Ganser Felindre, er y gallai trosglwyddo'r swyddogaeth wybodeg i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru arwain at wahanu'r ddau weithgarwch. Mae CGF yn bwriadu gwneud y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau hyn yn fwy eglur.

**24.** Roedd Pennaeth Gwybodaeth Glinigol CGF yn pryderu mai'r arfer oedd i staff gwybodaeth mewnol fod yn gyfrifol am brosesau Dilysu wrth y Ffynhonnell, ond oherwydd nad yw'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng CGF a GGGC wedi'i bennu'n derfynol eto, a'r gwasanaeth gwybodeg yn cael ei brynu i mewn gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, gallai cyfrifoldeb am hyn drosglwyddo'n ôl i Ganolfan Ganser Felindre gan na chafodd hyn ei gynnwys yn y swydd-ddisgrifiadau newydd.

# Er bod diffyg polisi ffurfiol, mae gweithdrefnau a phrosesau ansawdd data wedi'u sefydlu'n dda ac yn effeithiol

## Mae lle i'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei threfniadau polisi mewn perthynas ag ansawdd data

**25.** Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth bolisi ansawdd data fel yr argymhellwyd gan adroddiad y RhGIC yn 2008. Mae polisi diogelwch gwybodaeth ar waith a gafodd ei adolygu o bryd i'w gilydd.
Mae'n ddatganiad polisi cynhwysfawr sy'n amlinellu cyfrifoldeb staff mewn perthynas â phob gwybodaeth ac mae'n rhoi blaenoriaeth uchel i argaeledd ac uniondeb data. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys achredu, safonau, hyfforddiant na monitro perfformiad ac ni ddiweddarwyd y polisi ers 2009.

**26.** Mae absenoldeb polisi ansawdd data a diffyg safonau o ganlyniad i hynny yn cynyddu'r risg o brosesau anghyson o ran ansawdd data. Mae meysydd cyffredin o ran polisïau ansawdd data ledled Cymru y dylai'r Ymddiriedolaeth eu hystyried yn cynnwys y canlynol:

- llywodraethu a strwythurau;
- rolau a chyfrifoldebau a rheoli ansawdd data;
- gofynion polisi a safonau data;
- defnydd o gofnodion cleifion;
- diogelwch a chyfrinachedd;
- ansawdd data gwybodaeth a ddefnyddir ar gyfer llunio adroddiadau ar berfformiad i'r Bwrdd;
- data sy'n deillio o ddarparwyr eraill; a
- hyfforddiant a chyfathrebu.

## Mae prosesau a gweithdrefnau dilysu data sefydledig ac effeithiol ar waith sy'n cynnwys CaNISC a systemau allweddol eraill

**27.** Mae prosesau CGF mewn perthynas â gwybodaeth glinigol wedi'u canoli ar CaNISC, system sydd wedi'i datblygu a'i chynnal gan lefel uchel o ymwneud clinigol. Mae'n gweithredu fel system gweinyddu cleifion (SGC), gan olrhain gwybodaeth ddemograffig am gleifion, yn ogystal â fel ystorfa ar gyfer gwybodaeth glinigol. Ystyrir CaNISC yn gadarnhaol fel offeryn gwaith gan staff rheng flaen CGF; maent yn ymddiried yn ei gywirdeb ac mae clinigwyr yn barod i fuddsoddi amser yn mewnbynnu neu'n gwirio gwybodaeth i'w defnyddio yn nes ymlaen wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chleifion.

**28.** Mae gweithwyr sy'n trin canser ledled y GIG yng Nghymru'n defnyddio CaNISC, ac felly mae'n gofnod canser cymharol gyflawn ar gyfer Cymru. Lluniwyd nifer o setiau data clinigol sy'n cael eu defnyddio eisoes yn sefydliadau unigol y GIG. Mae'r Pennaeth Gwybodaeth Glinigol yn cyfeirio at y potensial i wella o ran diffinio un Set Ddata Sylfaenol ar gyfer Canser sydd wedi'i chymeradwyo ac eisoes yn y broses o gael ei datblygu. Byddai hyn yn symleiddio'r broses o gydweithredu, cymharu a chynllunio yn ogystal â lleihau'r angen i lenwi Set Ddata Sylfaenol ar wahân ar gyfer Canser ym mhob sefydliad sy'n cyfranogi i bob claf newydd ac felly'n lleihau'r tebygolrwydd o gofnodi data'n anghywir neu'n anghyson.

**29.** Ni all y Bwrdd fod yn sicr ynglŷn ag ansawdd ei wybodaeth oni bai bod prosesau adborth effeithiol ar waith i wirio dilysrwydd, cywirdeb, cyflawnrwydd ac amseroldeb y data sy'n sail i'r wybodaeth honno.

**30.** Caiff adroddiadau chwarterol eu paratoi ar gyfer Tîm Rheolwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru ar weithgarwch CGF. Mae'r adroddiad yn dangos y perfformiad yn ôl targedau a osodwyd yn genedlaethol ar gyfer ystod o ddangosyddion perfformiad. Mae'r rhain i'w gweld yn nhrydedd adran yr adroddiad hwn (Arddangosion 2 i 4) a, lle bo'n berthnasol, mae perfformiad CGF yn dda, yn gyson yn sgorio ar frig neu'n agos at frig yr ystod a welir yng Nghymru.

**31.** Mae staff codio'n cysylltu â staff clinigol fel mater o drefn os oes angen eglurhad ynglŷn â chofnodion ysgrifenedig cleifion, a gall clinigwyr yn eu tro wirio bod y gwaith codio wedi'i gwblhau yn ôl eu bwriad. Mae'r ddau grŵp yn fodlon â'r trefniant ac ymddengys ei fod yn gweithredu fel proses gadarnhaol o 'beidio â bwrw bai'. Mae hon yn broses adborth effeithiol sy'n gweithio'n dda yn ôl tystiolaeth anecdotaidd.

**32.** Caiff data demograffig a gofnodir ar systemau clinigol ei wirio fel mater o drefn yn erbyn sawl ffynhonnell – defnyddir modelau ystadegol i nodi camgymariaethau tebygol ac ymdrinnir â'r rhain mor agos â phosibl at y cofnod gwreiddiol. Mae gweithdrefnau Dilysu wrth y Ffynhonnell ar gael o fewn Medicode yn ogystal â'r Codydd Clinigol 3M a cheir adroddiadau Dilysu wrth y Ffynhonnell rheolaidd.

## Mae'r broses o gydgysylltu, sicrhau ansawdd ac adolygu'r gweithgarwch codio clinigol yn effeithiol

**33.** Ceir tîm o 7.5 codydd clinigol cyfwerth ag amser llawn mewn un gronfa fel eu bod yn gallu cefnogi gwaith ei gilydd yn ôl yr angen. Un arbenigedd oncoleg yw CGF i bob pwrpas, felly mae'r trefniant hwn yn briodol ac yn effeithiol. Mae'r ffaith nad oes ôl-groniad o waith codio ar hyn o bryd yn dystiolaeth o hynny, ac ni chafwyd unrhyw ôl-groniad sylweddol yn y gorffennol.

**34.** Mae gan y Rheolwr Codio rôl benodol i sicrhau ansawdd gwaith codio'i gydweithwyr a chyflawnir hyn drwy raglen o archwiliadau codio mewnol. Cyflwynir y canlyniadau i Grŵp Cofnodion Iechyd CGF; caiff materion a nodir sy'n ymwneud ag ansawdd eu cofnodi yn System Rheoli Risg Datix a'u hadrodd trwy eithriad i Bwyllgor Llywodraethu a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yr Ymddiriedolaeth.

**35.** Hefyd, mae'r Rheolwr Cofnodion Iechyd yn cynnal ystod o adolygiadau rheolaidd, ac mae dau o'r rhain yn canolbwyntio'n benodol ar ansawdd data. Nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gomisiynu arbenigwyr allanol i gynnal rhaglen dreigl o archwiliadau neu adolygiadau ansawdd data. Barn yr Ymddiriedolaeth oedd na fu angen yn y gorffennol am raglen benodol ar gyfer gwella ansawdd data gan fod ansawdd data eisoes cymaint yn well yng Nghanolfan Ganser Felindre o gymharu ag Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) eraill.

## Ceir trefniadau da ar gyfer hyfforddiant ar ansawdd data

**36.** Ceir rhaglen hyfforddi wedi'i chynllunio'n dda sy'n cynnwys pob aelod o staff ac yn canolbwyntio'n bennaf ar CaNISC fel y brif system cofnodion clinigol. Mae hefyd yn ymdrin â systemau atodol yn cynnwys RadIS, y system radioleg, a Chemocare, y system gemotherapi. Caiff y rhaglenni hyfforddi hyn eu blaenoriaethu gan eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â diogelwch cleifion. Anelir yr hyfforddiant at y staff yn gyffredinol, gyda modiwlau penodol ar gyfer staff sy'n gweithio gyda chofnodion meddygol ac fel codyddion clinigol. Dros y tair blynedd diwethaf, mae pob codydd wedi derbyn naill ai hyfforddiant cynefino neu hyfforddiant diweddaru. Mae hyfforddeion hefyd yn derbyn hyfforddiant priodol cyn ymgeisio am eu cymwysterau codio clinigol.

## Mae perfformiad yn ôl targedau dilysrwydd data cenedlaethol, ynghyd â chanlyniadau ein dadansoddiad ein hunain o'r data, yn dangos bod prosesau ansawdd data'n effeithiol, er nad yw'r Bwrdd wedi glanhau ei holl ddata'n ddigonol hyd yn hyn

**37.** Fel rhan o'n dull archwilio, rydym wedi ystyried a thargedu ein hasesiad o berfformiad ansawdd data lle mae modd ei gymharu'n genedlaethol, a lle y byddai modd i ni gysylltu ein canfyddiadau ag effeithiolrwydd prosesau gweithredol, a meysydd risg clinigol neu risg i fusnes yn sgil hynny. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'r setiau data dilysu cenedlaethol yn ogystal â dadansoddiad o ddata demograffeg electronig 8.5 miliwn o gofnodion gweinyddol cleifion a 5.2 miliwn o gofnodion gweinyddol radioleg a gasglwyd gan bob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru. Rydym hefyd wedi cynnwys archwiliad o set ddata CaNISC, y brif system glinigol sy'n cael ei defnyddio gan Ganolfan Ganser Felindre a system radioleg CGF.

**38.** Er bod ein dadansoddiad ond yn canolbwyntio ar ddwy o'r nifer fawr o setiau data clinigol a setiau data busnes a ddelir gan yr Ymddiriedolaeth, mae CaNISC yn arbennig mor greiddiol i waith clinigol CGF fel ei fod yn taflu goleuni ar effeithiolrwydd cyffredinol y trefniadau ansawdd data. I ategu hyn, mae ein harchwiliad o ddata radioleg RadIS yn ein galluogi i gymharu'n uniongyrchol rhwng perfformiad CGF a pherfformiad y BILlau.


### Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni targedau dilysrwydd data ar gyfer setiau data allweddol

**39.** Ledled Cymru, mae'r BILlau a'r Ymddiriedolaethau'n cyflwyno data i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru sy'n mynd ati wedyn i gynnal gwiriadau dilysrwydd. Yna, caiff canlyniadau'r gwaith hwn eu cyfathrebu'n ôl i'r sefydliadau'n rheolaidd, fel arfer yn fisol neu bob deufis. Oherwydd bod sefydliadau'r GIG yn derbyn yr holl ddata sy'n ymwneud â'u perfformiad eu hunain a pherfformiad sefydliadau eraill, nid yw'r graffiau yn yr adran hon yn ddienw.

**40.** Adolygwyd tri o'r pedwar adroddiad dilysrwydd data sy'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Tachwedd 2011. Mae'r adroddiadau hyn yn ymdrin â gofal cleifion a dderbyniwyd i'r ysbyty, atgyfeiriadau cleifion allanol, a gweithgarwch cleifion allanol. Mae pedwerydd adroddiad ar gael sy'n dangos dilysrwydd data ar gyfer meddygaeth frys (damweiniau ac achosion brys), nad yw'n berthnasol i'r Ymddiriedolaeth. Mae GGGC yn casglu data perfformiad yn ôl clwstwr o rhwng 10 ac 20 maen prawf ar gyfer pob un o'r pedwar adroddiad, gyda phob un â tharged dilysrwydd unigol penodedig wedi'i osod ar lefel briodol rhwng 90 y cant a 100 y cant. Mae adroddiadau GGGC yn nodi lle mae meysydd data wedi cyflawni'r targedau cenedlaethol hyn. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn Arddangosion 2 i 4 yn darparu crynodeb o adroddiadau GGGC ac yn dynodi canran y meysydd data sy'n cyflawni'r targed cenedlaethol ar gyfer y dangosydd hwnnw.

**41.** Gyda'i gilydd mae'r arddangosion yn dynodi bod yr Ymddiriedolaeth yn gyson yn cyflawni pob un o'r targedau dilysrwydd, yr unig Ymddiriedolaeth yng Nghymru sy'n gwneud hynny. Ceir ffactorau sydd wedi helpu yn hyn o beth, yn cynnwys natur gymharol gryno CGF, a'r berthynas waith dda rhwng staff clinigol a staff gwybodeg.


Arddangosyn 2: Gofal cleifion a dderbyniwyd i'r ysbyty – dilysrwydd set ddata




*Ffynhonnell: GGGC, Ebrill – Tachwedd 2011.*

*Noder: Mae'r set ddata adran gofal cleifion a dderbyniwyd i'r ysbyty yn cynnwys 32 o ddangosyddion gwahanol a rhoddir targed ar gyfer pob dangosydd. Mae'r arddangosyn yn dangos i ba raddau y mae'r sefydliadau wedi cyflawni'r targedau hyn ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Tachwedd 2011.*


### Arddangosyn 3: Atgyfeirio cleifion allanol – dilysrwydd set ddata




*Ffynhonnell: GGGC, Ebrill - Tachwedd 2011.*

*Noder: Mae set ddata atgyfeirio cleifion allanol yn cynnwys 15 o ddangosyddion gwahanol a rhoddir targed ar gyfer pob dangosydd. Mae'r arddangosyn yn dangos i ba raddau y mae'r sefydliadau wedi cyflawni'r targedau hyn ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Tachwedd 2011.*

### Arddangosyn 4: Gweithgarwch cleifion allanol – dilysrwydd set ddata




*Ffynhonnell: GGGC, Ebrill – Tachwedd 2011.*

*Noder: Mae set ddata gweithgarwch cleifion allanol yn cynnwys 23 o ddangosyddion gwahanol a rhoddir targed ar gyfer pob dangosydd. Mae'r arddangosyn yn dangos i ba raddau y mae'r sefydliadau wedi cyflawni'r targedau hyn ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Tachwedd 2011.*

## Mae ein profion Technegau Archwilio â Chymorth Cyfrifiadur (CAAT) yn dynodi mai lefel galonogol o isel o ddyblygu cofrestriadau a geir yn CaNISC a RadIS, er bod angen gwaith pellach i lanhau data am na chaiff Rhifau GIG eu cofnodi mor eang ag y dylent

**42.** Un o gonglfeini allweddol data o ansawdd da yn y GIG yw gwybodaeth ddemograffig am gleifion, er enghraifft, enw, cyfeiriad a dyddiad geni. Defnyddir systemau gwybodaeth cleifion gwahanol yn aml mewn ysbytai ac adrannau gwahanol fel Radioleg. Golyga hyn y gall fod gan glaf sydd wedi derbyn gofal mewn nifer o leoliadau gwahanol sawl cofnod a rhif adnabod. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'n annhebygol y bydd yr holl wybodaeth glinigol am y claf hwnnw yn cael ei chadw mewn un man, sy'n peri risgiau posibl o ran llywodraethu clinigol ac yn ei gwneud hi'n anos dod o hyd i'r cofnodion cywir ar gyfer y claf cywir. Y ddelfryd yw lefelau isel o gofrestriadau lluosog, lle ceir mwy nag un cofnod ar gyfer yr un claf, a lefelau isel o Rifau GIG coll, ond nid yw hynny ynddo'i hun yn gwarantu bod ansawdd y data'n dda. Fodd bynnag, rhaid i'r lefelau fod yn isel cyn gallu sicrhau ansawdd data da. Byddai nifer uchel o achosion o'r ddau ffactor yn golygu nad yw cleifion yn cael eu cofnodi'n eglur a diamwys yn systemau sefydliad, ac mae'n dilyn y byddai ansawdd y data yn ei gyfanrwydd yn cael ei beryglu.


**43.** Yn ogystal ag ystyried y trefniadau ar gyfer cyflawni ansawdd data fel y trafodwyd yn adrannau cynharach yr adroddiad hwn, rydym wedi cynnal profion data demograffig gan ddefnyddio Technegau Archwilio â Chymorth Cyfrifiadur. Dadansoddwyd y data demograffig craidd a ddelir ar CaNISC a RadIS i asesu i ba raddau y dyblygir cofnodion cleifion, neu achosion lle mae rhifau adnabod cleifion ar goll. Gan gydnabod mai CGF yw un o brif ddefnyddwyr CaNISC, ond nad CGF yw'r unig sefydliad sy'n defnyddio'r system, rydym wedi cymharu'r sefyllfa o ran ansawdd data yn y ddwy system allweddol hon â'r data sydd gan y byrddau iechyd yng Nghymru. Ar hyn o bryd, cyflwynir y data cymharol yn ddienw gan nad yw'r canfyddiadau wedi'u clirio eto gyda'r cyrff GIG dan sylw.

**44.** Mae ein canfyddiadau o'r dadansoddiad data'n awgrymu bod y risg posibl i'r Ymddiriedolaeth at ei gilydd yn isel; y prif faes pryder yw'r nifer uwch o gofnodion CaNISC heb Rif GIG. Ar wahân i hynny, ychydig iawn o oblygiadau clinigol a goblygiadau o ran effeithlonrwydd busnes a geir, ond os eir ati i wneud gwaith glanhau data ychwanegol fel rhan o'r paratoi ar gyfer y Prif Fynegai Cleifion, byddai ar ei fwyaf cynhyrchiol pe bai'n canolbwyntio ar leihau nifer y cofnodion heb Rif GIG dilys. Dangosir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn yn Arddangosion 5 i 10.

Nid oes unrhyw gofrestriadau lluosog yn ôl Rhif GIG ar CaNISC

**45.** Ni ddangosai'r data demograffig ar gleifion a ddelir ar CaNISC unrhyw gofrestriadau lluosog (cleifion unigol â mwy nag un cofnod electronig) wrth edrych arnynt yn ôl Rhif GIG. Mae hwn yn ganlyniad delfrydol sy'n cymharu'n dda â'r Systemau Gweinyddu Cleifion yng ngweddill Cymru lle mae'r gwerthoedd yn amrywio o dan un y cant i dros 25 y cant (Arddangosyn 5). Gall y canfyddiad hwn roi sicrwydd mawr i'r Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, dylid nodi y gallai'r sefyllfa o ran cofrestriadau lluosog newid pan eir i'r afael â materion yn ymwneud â Rhifau GIG coll (gweler paragraff 47).

Arddangosyn 5: Canran y cofrestriadau lluosog mewn Systemau Gweinyddu Cleifion (SGC) unigol a CaNISC yng Nghymru





*Ffynhonnell: Dadansoddiad CAAT Swyddfa Archwilio Cymru o holl ddata CaNISC hyd at fis Tachwedd 2011.*

*Noder: Mae gan rai BILl Systemau Gweinyddu Cleifion lluosog.*

**46.** Gallai achosion o gleifion unigol â mwy nag un cofnod electronig ar un safle greu risg glinigol os oes gan y claf nodiadau achos ysgrifenedig dyblyg ar un safle, os nad yw'r rhain i gyd ar gael i glinigwyr sy'n ymwneud â gofal y claf.

**47.** Nododd ein dadansoddiad o CaNISC 38,951 cofnod lle na roddwyd Rhif GIG – tua 10 y cant o'r holl gofnodion ar CaNISC. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â mwyafrif y cyrff GIG eraill yng Nghymru (Arddangosyn 6). Fodd bynnag, gydag un o bob deg cofnod heb Rif GIG, dyma faes lle gallai fod o ddefnydd i'r Ymddiriedolaeth geisio gwneud gwelliannau.

Arddangosyn 6: Cofnodion SGCau a CaNISC heb Rifau GIG yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol/Ymddiriedolaeth




*Ffynhonnell: Dadansoddiad CAAT Swyddfa Archwilio Cymru o holl ddata SGCau a CaNISC hyd at fis Tachwedd 2011.*

**48.** Mae diffyg Rhif GIG yn creu risg i gleifion yn deillio o gam-gofnodi neu gofnodion anghyflawn. Er ei bod yn dal i fod yn bosibl adnabod cleifion yn ôl eu manylion personol, neu drwy ddefnyddio rhifau ysbyty sy'n bodoli eisoes, mae'r dulliau hyn yn llai manwl gywir na defnyddio Rhifau GIG; gall manylion personol fod yn aneglur neu efallai na fyddant ar gael, a defnyddir nifer o systemau rhif anghydnaws â'i gilydd mewn ysbytai ledled Cymru. Hefyd, gall diffyg Rhif GIG guddio rhai cofrestriadau lluosog; gallai cleifion unigol fod wedi'u hychwanegu sawl gwaith ar CaNISC heb gofnod o'u Rhif GIG. Pan ychwanegir y Rhif GIG, mae'n bosibl y gwêl CGF mai cofrestriadau lluosog yw rhai o'r achosion hyn mewn gwirionedd.


**49.** At hynny, gall diffyg Rhif GIG gael effaith ariannol am na all sefydliadau adennill costau triniaeth sy'n gysylltiedig â chleifion o Fyrddau Iechyd Lleol eraill yng Nghymru, neu o Loegr.

Ceir ychydig o gofnodion radioleg â Rhifau GIG dyblyg neu ar goll

**50.** Roedd ein dadansoddiad hefyd yn ymwneud â system radioleg yr Ymddiriedolaeth, RadIS. Ledled Cymru gwelsom fod Rhifau GIG dyblyg neu ar goll yn llai o broblem ar y cyfan i systemau radioleg nag oeddent i'r prif SGCau. Ond pan fo problemau'n digwydd, gallant greu risgiau o ran anhawster i baru cofnodion radioleg cleifion â'u prif gofnod SGC. Gallai hyn olygu mai anghyflawn yw'r wybodaeth ddiagnostig sydd ar gael gan beri i gleifion gael mwy o archwiliadau radiolegol nag sydd angen.

**51.** Yn Felindre, gwelsom mai ychydig iawn o achosion o gofrestriadau radioleg lluosog a gafwyd, sy'n cymharu'n ffafriol â chyrff GIG eraill yng Nghymru (Arddangosyn 7).

Arddangosyn 7: Canran y cofrestriadau radioleg lluosog o fewn yr un system





*Ffynhonnell: Dadansoddiad CAAT Swyddfa Archwilio Cymru o holl Ddata Radioleg y GIG hyd at fis Tachwedd 2011.*

*Noder: Mae gan rai BILlau systemau radioleg lluosog. Nid oes gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys system radioleg ond mae un gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre.*

52. Dengys Arddangosyn 8 ddarlun tebyg pan archwilir nifer y cofnodion radioleg heb rif adnabod o gwbl (Rhif GIG neu rif ysbyty). Cafwyd nifer fach o achosion o rifau adnabod cleifion ar goll ar system RadIS yr Ymddiriedolaeth, sefyllfa sy'n cymharu'n ffafriol â chyrff GIG eraill yng Nghymru.

53. Gall yr Ymddiriedolaeth deimlo'n sicr felly nad yw'n agored i risgiau sylweddol sy'n gysylltiedig â rhifau adnabod cleifion radioleg dyblyg neu ar goll.

Arddangosyn 8: Canran y cofnodion radioleg heb rifau adnabod (Rhif GIG neu rif ysbyty)




*Ffynhonnell: Dadansoddiad CAAT Swyddfa Archwilio Cymru o holl Ddata Radioleg y GIG hyd at fis Tachwedd 2011.*

*Noder: Mae gan rai BILlau systemau radioleg lluosog. Nid oes gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys system radioleg ond mae un gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre.*


Ceir ychydig o gofnodion CaNISC sy'n cysylltu â mwy nag un cofnod radioleg

**54.** Yng Nghanolfan Ganser Felindre, CaNISC, sy'n cyflawni swyddogaeth SGC a system wybodaeth glinigol, ddylai fod yn gofnod sylfaenol claf, gyda phob gwybodaeth glinigol arall yn deillio ohoni. Ceir risg posibl pan fo cofnodion CaNISC lluosog yn gysylltiedig ag un cofnod radioleg neu pan fo cofnodion RadIS lluosog yn gysylltiedig ag un cofnod CaNISC. Y rheswm am hyn yw y gallai sefyllfaoedd o'r fath beri i glinigwyr fod â gwybodaeth anghyflawn am gleifion ar gyfer seilio penderfyniadau clinigol, ac y gallai fod angen cynnal archwiliadau radiolegol ychwanegol yn sgil y ffaith nad yw'r wybodaeth am y claf ar gael mewn un man.

**55.** Mae Arddangosyn 9 yn cymharu nifer yr achosion lle mae gan glaf sydd ag o leiaf un cofnod CaNISC/SGC ddau neu ragor o gofnodion cysylltiedig o fewn y system radioleg. Yn yr achos hwn, rydym wedi ystyried yr holl SGCau a phob system Radioleg ym mhob sefydliad gyda'i gilydd.

**56.** Yn Felindre, gwelsom mai dim ond 66 o gleifion oedd â dau gofnod Radioleg ar wahân ac nid oedd gan unrhyw glaf dri neu ragor, sy'n galonogol.

Arddangosyn 9: Mwy nag un cofnod radioleg sy'n paru â chofnod SGC/CaNISC





*Ffynhonnell: Dadansoddiad CAAT Swyddfa Archwilio Cymru o holl Ddata Radioleg y GIG, SGCau a CaNISC hyd at fis Tachwedd 2011.*

*Noder: Dim ond chwe BILl yng Nghymru sydd â SGC a system radioleg. Mae gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre system radioleg ond mae'n defnyddio CaNISC yn hytrach na SGC benodedig. Mae gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys SGC Cleifion ond nid oes ganddo system radioleg.*

57. Mae Arddangosyn 10 yn dangos achosion lle mae gan glaf o leiaf un cofnod radioleg a mwy nag un cofnod CaNISC/SGC. Ni welsom unrhyw achosion o'r fath yn Felindre, sydd unwaith eto'n galonogol.

Arddangosyn 10: Mwy nag un cofnod SGC/CaNISC sy'n paru ag un cofnod radioleg




*Ffynhonnell: Dadansoddiad CAAT Swyddfa Archwilio Cymru o holl Ddata Radioleg y GIG, SGCau a CaNISC hyd at fis Tachwedd 2011.*

*Noder: Dim ond chwe BILl yng Nghymru sydd â SGC a system radioleg. Mae gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre system radioleg ond nid oes ganddi SGC, ac mae gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys SGC ond nid oes ganddo system radioleg.*

# Atodiad 1

## Canlyniadau'r dadansoddiad o ddata demograffig cleifion

Fel rhan o'n gwaith maes, cynhaliwyd dadansoddiad o ddata demograffig cleifion SGC, CaNISC a System Radioleg. Mae'r Atodiad hwn yn rhoi crynodeb o'n canfyddiadau.

| Dangosydd | Ymddiriedolaeth GIG Felindre | Cymru |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y cofnodion cleifion electronig | 380,000 | 8,461,547 (SGC) |
| Cyfanswm nifer y cofnodion heb Rif GIG wedi'i gofnodi | 38,951<br>10% | 1,150,090<br>16% cyfartaledd |
| Cyfanswm nifer cofrestriadau lluosog cleifion yn CaNISC | 0<br>0% | 589,347<br>6.2% cyfartaledd (SGC) |
| Cyfanswm nifer y cofnodion Radioleg | 111,743 | 5,216,510 |
| Cyfanswm nifer y cofnodion Radioleg heb Rif GIG na rhif ysbyty wedi'i gofnodi | 1,026<br>0.90% | 443,570<br>10% cyfartaledd |
| Cyfanswm nifer y cofrestriadau Radioleg lluosog | 132<br>0.12% | 39,539<br>0.73% cyfartaledd |
| Cofnodion SGC/CaNISC â mwy nag un cofnod Radioleg cyfatebol yn ôl Rhif GIG | 66 (dau gofnod)<br>0 (tri chofnod neu ragor) | 4,999 (dau gofnod)<br>203 (tri chofnod neu ragor)<br>Cyfartaledd Cymru |
| Cofnodion Radioleg â mwy nag un cofnod SGC/CaNISC cyfatebol | 0 (dau gofnod)<br>0 (tri chofnod neu ragor) | 17,914 (dau gofnod)<br>650 (tri chofnod neu ragor)<br>Cyfartaledd Cymru |

*Noder: Seiliwyd ffigurau canrannol ar gyfer Cymru gyfan ar ganlyniadau cyfartalog pob system (ar draws y saith bwrdd iechyd yng Nghymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre) yn hytrach na chyfartaledd yr holl gofnodion.*

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk